Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd

## Darlithydd Nyrsio Oedolion Addysgu Uwch ar gyfer Absenoldeb Mamolaeth

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Cyflog:** | Gradd 08 £38,205 i £44,263 y flwyddyn pro rata, ynghyd â buddion USS |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn 35 awr yr wythnos (100% Cyfwerth ag Amser Llawn) |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Tymor Penodol |
| **Lleoliad:** | Gampws Abertawe Singleton |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod yn un o'r 30 o brifysgolion gorau, mae angen ar Brifysgol Abertawe weithlu â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr; ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Mae'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd yn dod â disgyblaethau iechyd, nyrsio, bydwreigiaeth, osteopatheg, gofal cymdeithasol, polisi cymdeithasol a seicoleg ynghyd. Y Gyfadran yw darparwr mwyaf addysg gofal iechyd yng Nghymru, gan ddarparu amgylchedd cyffrous a dynamig i astudio ynddo ac i ddatblygu gyrfa academaidd neu broffesiynol. Gydag 20 athro, cenhadaeth y gyfadran yw cynnal ymchwil ryngwladol o safon uchel sy'n diwallu anghenion pobl yn ne-orllewin Cymru a'r tu hwnt.<br>Mae'r Adran Nyrsio yn rhan flaengar, ddeinamig ac uchelgeisiol o'r Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe. Ein nod yw darparu addysg, ymchwil ac arloesedd nyrsio o'r safon uchaf a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Mae Adran Nyrsio Prifysgol Abertawe ar y brig yng Nghymru ac yn y 7fed safle yn y DU.<br>I gyflawni ei huchelgais o fod ymysg y 30 o brifysgolion gorau yn y DU, mae Prifysgol Abertawe am benodi Darlithydd sy'n rhagori mewn addysgu i'r Adran Nyrsio. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cyfraniad sylweddol at addysgu nyrsio i oedolion yn yr Adran, yn ogystal â chyfrannu at addysgu a goruchwylio israddedig ac ôl-raddedig ar draws yr Ysgol. Yn ogystal â rhannu cyfrifoldebau gweinyddol, sefydliadol ac academaidd, bydd disgwyl i'r unigolyn a benodir hefyd weithio'n agos gyda chydweithwyr clinigol mewn Byrddau Iechyd Lleol i gefnogi myfyrwyr yn ystod profiadau dysgu clinigol. |
| **Llwybrau Gyrfa Academaidd** | Dyluniwyd cynllun y Llwybrau Gyrfa Academaidd i sicrhau bod cryfderau academaidd, boed mewn ymchwil, addysgu, profiad ehangach y myfyrwyr, arweinyddiaeth, neu arloesi ac ymgysylltu, i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo mewn modd priodol. Ceir tri llinyn academaidd uwch: Addysgu ac Ysgolheictod Uwch; Ymchwil Uwch; ac Arloesi ac Ymgysylltu Uwch.<br>Am ragor o wybodaeth am Lwybrau Gyrfa Academaidd, cliciwch yma. Mae'r rhain yn darparu lefelau perfformiad dangosol ar gyfer yr holl staff academaidd, a gaiff eu defnyddio drwy gydol y broses recriwtio. Lle ceir dangosyddion rhifiadol, caiff y rhain eu hasesu gan roi sylw i'r cam gyrfaol, yr oriau gwaith ac ymrwymiadau eraill. Gall y rhain gynnwys amgylchiadau personol neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith y tu allan i'r gymuned academaidd, er enghraifft, mewn lleoliad diwydiannol neu glinigol. Mae croeso i chi nodi amgylchiadau unigol perthnasol megis saib yn eich gyrfa, cyfnodau o wyliau neu ar secondiad, neu absenoldebau eraill, y dylid eu hystyried, a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddatblygiad eich gyrfa. |
| **Prif Ddiben y Swydd: Addysgu Uwch** | 1. Darparu ac Adolygu Addysgu: Gweithio'n effeithiol i addysgu, asesu a sicrhau ansawdd modiwlau neu gydrannau cyfatebol eraill yn y portffolio o gyrsiau a addysgir. Adolygu cynnwys a deunyddiau cyrsiau, a datblygu, llunio a diweddaru deunyddiau yn unol â safonau ansawdd.<br>2. Arloesi ac Effaith Addysgu: Darparu addysgu arloesol sy'n seiliedig ar yr ymarfer diweddaraf ac wedi'i lywio gan ymchwil neu ymarfer proffesiynol.<br>3. Parch: Cyfrannu at y gymuned academaidd ehangach, gan ddarparu tystiolaeth o effaith a chydnabyddiaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol |

| | |
|---|---|
| | 4. Cyfrannu at addysgu a dysgu sefydliadol drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>5. Datblygu Ymarfer: Defnyddio arloesedd i ddatblygu eich ymarfer eich hun ac ymarfer pobl eraill drwy ddylanwadu a mentora, yn benodol drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Rheoli** | 6. <u>Cyfrannu at ein Gweithgareddau:</u> Cyfranogi wrth lunio penderfyniadau'r Gyfadran/Adran neu'r Brifysgol a chyfrannu at weithgareddau y tu hwnt i ymrwymiadau ymchwil, addysgu neu ysgolheictod uniongyrchol.<br>7. <u>Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Proffesiynol:</u> Ymwneud â gweithgareddau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, drwy rwydweithio mewn cynadleddau neu ymwneud â grwpiau allanol.<br>8. <u>Eich rheoli eich hun ac eraill:</u> Cefnogi a galluogi datblygiad cydweithwyr, myfyrwyr a/neu chi eich hun. |
| **Ymchwil** | 9. <u>Allbynnau a Gweithgarwch Ymchwil</u>: Lledaenu canfyddiadau ymchwil drwy gyfryngau ysgrifenedig, llafar neu gyfryngau priodol eraill, yn y Brifysgol a'r tu allan iddi.<br>10. <u>Prosiectau a Grantiau Ymchwil</u>: Sicrhau'r adnoddau sy'n angenrheidiol i ategu gweithgarwch ymchwil/ysgolheictod/arloesi yn llwyddiannus yn briodol i'r ddisgyblaeth. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 11. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chydweithredol.<br>12. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>13. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br><br>**Bydd yn rhaid darparu tystysgrif foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau** |

| Meini Prawf y Fanyleb Person | Tystiolaeth nodweddiadol: |
|---|---|
| **Cymwysterau** | |
| 1. Gradd mewn Nyrsio Oedolion | *Aelodaeth siartredig o gorff proffesiynol, cofrestriad meddygol, etc.* |
| 2. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig a fyddai'n arwain at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu ymrwymiad i gyflawni hyn. | *Os nad oes gan yr ymgeisydd gymhwyster addysgu cydnabyddedig, bydd angen tystiolaeth o ymrwymiad i weithio tuag at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfwerth.* |
| **Addysgu Uwch** | |
| 3. Tystiolaeth o gyflawni ac adolygu addysgu ac asesu effeithiol. | *Adborth da neu gyson a/neu welliant o ran dilyniant neu gyfraddau cadw myfyrwyr.* |
| 4. Tystiolaeth o ymgymryd â gweithgareddau adolygu cyrsiau a/neu sicrhau ansawdd gan adolygu ymarfer addysgu, yn seiliedig ar arloesedd personol neu arloesedd eraill ac effaith hyn ar ddysgu myfyrwyr. | *Adolygu cynnwys a deunyddiau cyrsiau, a datblygu, llunio a diweddaru deunyddiau yn unol â safonau ansawdd* |
| 5. Cyfrannu at y gymuned academaidd ehangach yn llwyddiannus gan ddarparu tystiolaeth o effaith a chydnabyddiaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol | *- Tystiolaeth o gyfraniad ar lefel sefydliadol, cydnabyddiaeth genedlaethol drwy rôl arbenigol.*<br><br>*- Dyfarniad addysgu sefydliadol.* |
| 6. Tystiolaeth o sut mae arloesi, cyfrannu a datblygu wedi llywio ymarfer personol neu ymarfer eraill | *Tystiolaeth o sicrhau cyllid llwyddiannus ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag addysgu neu gyfrannu at rwydweithiau/gymdeithasau addysgol. Mentora eraill yn llwyddiannus* |
| **Ymchwil Graidd** | |
| 7. Tystiolaeth o gylchredeg canfyddiadau ymchwil drwy gyfryngau ysgrifenedig, llafar neu gyfryngau priodol | *Fel arfer, tystiolaeth ar ffurf dau gyhoeddiad o ansawdd mewn pum mlynedd* |

| | |
|---|---|
| eraill, yn y sefydliad ac yn allanol, neu'r gallu i wneud hynny | |
| 8. Sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i ategu'r gweithgarwch ymchwil/ysgolheictod/arloesi | *Tystiolaeth o sicrhau adnoddau allanol sy'n berthnasol i'r maes dros gyfnod o bum mlynedd.* |
| **Rheoli craidd** | |
| 9. Cyfrannu'n weithredol at benderfyniadau a gweithgareddau mewn uned neu sefydliad academaidd, y tu hwnt i ymrwymiadau ymchwil ac addysgu personol. | *Enghreifftiau sy'n dangos cyfraniad ac effaith personol.* |
| ***Penodol i'r Pwnc*** | |
| 10. Cofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (oedolion).<br>11. Gradd mewn Nyrsio Oedolion<br>12. Y gallu i gynllunio, cyflwyno ac addasu addysgu personol drwy ddefnyddio arddull/dull addas i gyflawni'r deilliannau dysgu a nodwyd ar draws y maes pwnc<br>13. Tystiolaeth o addysgu, mentora neu oruchwylio myfyrwyr (mewn amgylchedd addysgol a/neu glinigol)<br>14. Dangos ymwybyddiaeth o ymchwil bresennol yn y maes a/neu ymarfer cyfredol gyda dealltwriaeth glir o'r materion sy'n ymwneud â nyrsio | |

**Y Gymraeg**

Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)
e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.

Gofynnir i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein, gan ddarparu tystiolaeth yn erbyn y meini prawf hanfodol yn y ddogfennaeth recriwtio. Hefyd, dylai ymgeiswyr atodi dwy ddogfen ar wahân i'r cais:

1. Curriculum Vitae;
2. datganiad sy'n nodi eich dyheadau i wella addysgu a phrofiad y myfyrwyr.

Gofynnir i'r sawl a wahoddir am gyfweliad roi cyflwyniad 10 munud.

Anogir ymholiadau anffurfiol a gellir eu cyfeirio at bennaeth yr Adran Nyrsio, Cath Norris c.norris@swansea.ac.uk neu'r Arweinydd Tîm Oedolion Sarah Done j.s.oram@swansea.ac.uk